

Effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd, diogelwch, a derbynioldeb phacofitrectomi CYFUnol, yn erbyn fitrectomi dilyniannol a llawdriniaeth cataract, ar gyfer rheoli datodiad retinol rhegmatogenaidd: Treial Clinigol Cyfatebolrwydd Ar Hap

Teitl byr: COMBAT

TAFLEN WYBODAETH I GYFRANOGWR

Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan yn yr astudiaeth ymchwil hon, yr hyn, yn fyr, rydym yn ei galw'n COMBAT.

Cyn i chi benderfynu cymryd rhan, mae'n bwysig eich bod yn deall pam mae'r ymchwil hwn yn cael ei wneud a'r hyn y bydd yn ei olygu i chi gymryd rhan ynddo. Cymerwch amser i ddarllen yr wybodaeth ganlynol a thrafodwch hi â'ch meddyg, teulu, a ffrindiau os dymunwch. Peidiwch ag oedi i ofyn cwestiynau i ni, os oes gennych rai.

Ac er mwyn i chi ddeall, hoffem egluro, yn gyntaf, ystyr:

Phacofitrectomi: Cael llawdriniaeth cataract a llawdriniaeth i gefn y llygad i atgyweirio'r datodiad retinol, y ddau ar yr un pryd.

Fitrectomi: Dyma'r llawdriniaeth fydd yn cael ei defnyddio i atgyweirio eich datodiad retinol.

Beth yw pwrpas yr astudiaeth hon?

Y retina yw'r haenen yng nghefn y llygad sy'n rhoi golwg. Fel arfer mae hi wedi'i hatodi i wal y llygad, ond gall wahanu mewn cyflwr o'r enw datodiad retinol rhegmatogenaidd (RRD). Mae RRD yn achosi colli golwg ac mae'n gofyn am lawdriniaeth.

Papur Pennawd

Y llawdriniaeth fwyaf cyffredin i drin RRD yw fitrectomi. Gan ddibynnu ar ba mor ddrwg mae'r RRD, gall llawdriniaeth unigol roi'r retina yn ei lle mewn tua 8 mewn 10 llygad.

Gall fitrectomi gael cymhlethdodau. Yr un mwyaf cyffredin yw cataract. Cataract yw pan fydd lens y llygad, sydd fel arfer yn glir, yn mynd yn niwlog. Mae cataractau yn aml yn gwaethygu gydag amser. Pan fyddant yn effeithio ar olwg, mae angen iddynt gael eu tynnu â llawdriniaeth. Mewn llawdriniaeth cataract, mae'r lens niwlog yn cael ei disodli gan lens glir artiffisial. Gall fod gan gleifion ag RRD gataract cynnar eisoes, yn enwedig os ydynt yn hŷn na 50 oed. Nid yw llawfeddygon fel mater o drefn yn cynnig llawdriniaeth cataract ar yr un pryd â fitrectomi mewn pobl ag RRD. Felly, gan amlaf, pan fydd y cataract yn gwaethygu ar ôl y fitrectomi, cynigir y llawdriniaeth cataract ar yr adeg honno.

Bydd COMBAT yn profi a yw'n well parhau i wneud y fitrectomi ar ei phen ei hun wrth atgyweirio'r RRD neu a all fod yn well gwneud llawdriniaeth y cataract yn ogystal â llawdriniaeth y fitrectomi ar yr un pryd, mewn un llawdriniaeth unigol.

Manteision posibl o wneud llawdriniaeth cataract a fitrectomi ar yr un pryd yw:

- Gall tynnu'r cataract allan ei gwneud yn haws i drwsio'r RRD.
- Os yw'r cataract yn cael ei dynnu ar adeg atgyweirio'r datodiad retinol, ni fydd pobl yn colli eu golwg yn ddiweddarach, ar ôl i'r retina gael ei rhoi yn ôl yn ei lle, oherwydd y cataract.
- Mae'r claf yn cael un llawdriniaeth yn hytrach na dwy.
- Gall fod angen llai o ymweliadau ysbyty ar y claf.

Anfanteision posibl o wneud llawdriniaeth cataract a fitrectomi ar yr un pryd yw:

- Gall dewis y lens artiffisial fod yn llai cywir mewn llygad ag RRD sy'n effeithio ar ganol y retina (yr hyn a elwir yn "macwla oddi ar" RRD), sy'n golygu y gall fod angen sbectol ar fwy o bobl ar ôl llawdriniaeth.

Papur Pennawd

- Mae'r llawdriniaeth yn debygol o gymryd mwy o amser.
- Gall y claf gael mwy o lid yn y llygad.

Manteision posibl o wneud llawdriniaeth cataract ar ôl fitrectomi :

- Gall dewis y lens artiffisial fod yn gywirach mewn llygad ag RRD “macwla oddi ar”, sy'n golygu y gall fod angen sbectolau pellter neu ddarllen ar lai o bobl ar ôl y llawdriniaeth.
- Gall y llawdriniaeth gymryd llai o amser.
- Gall fod llai o lid ar ôl y llawdriniaeth.

Anfanteision posibl o wneud llawdriniaeth cataract ar ôl y fitrectomi yw:

- Gall llawdriniaeth cataract fod yn anos i'w gwneud ar ôl y fitrectomi.
- Gall cael dwy llawdriniaeth fod yn ddrutach i'r GIG.
- Gall cleifion gael costau ychwanegol o deithio ac amser o'r gwaith.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod i sicrwydd beth yw'r **gwir** fanteision ac anfanteision o gael llawdriniaeth cataract a fitrectomi gyda'i gilydd mewn llawdriniaeth sengl neu ar wahân (fitrectomi gyntaf ac wedyn, yn ddiweddarach, llawdriniaeth cataract). Bydd yr astudiaeth COMBAT yn ein helpu i ddarganfod pa opsiwn allai fod orau i bobl ag RRD.

Pam ydw i wedi cael fy ngwahodd?

Rydych yn cael eich gwahodd i gymryd rhan yn yr astudiaeth COMBAT oherwydd bod gennych RRD ac mae angen fitrectomi arnoch i roi eich retina yn ôl yn ei lle (hynny yw, i'w hailatodi).

Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Nac oes. Mae'n wirfoddol ac ni fydd peidio â chymryd rhan yn effeithio ar eich gofal.

Beth fydd yn digwydd os penderfynaf gymryd rhan?

Papur Pennawd

Bydd y tîm ymchwil yn darparu rhagor o wybodaeth i chi am yr astudiaeth, yn esbonio'r astudiaeth yn fanwl i chi ac yn ateb unrhyw gwestiynau a all fod gennych. Os ydych yn dal i ddymuno cymryd rhan, gofynnir i chi lofnodi ffurflen gydsynio.

Os ydych yn cytuno i gymryd rhan, byddwch yn cael eich gwirio'n ofalus gan y tîm ymchwil a chan feddyg ac yn debygol gan eich llawfeddyg yn ystod yr ymweliad cyntaf cyn eich llawdriniaeth. Ni fydd cymryd rhan yn yr astudiaeth COMBAT yn oedi eich llawdriniaeth.

Bydd eich hanes meddygol a llygaid blaenorol yn cael ei adolygu. Wedyn, bydd eich golwg yn cael ei wirio'n ofalus. Bydd cefn eich llygad yn cael ei archwilio yn ogystal â'ch RRD. Bydd mesuriadau o faint eich llygad yn cael eu cymryd. Gofynnir i chi ateb rhai cwestiynau am sut mae'r RRD yn effeithio ar ansawdd eich bywyd.

Pan fydd yr holl brofion hyn wedi'u cwblhau byddwch yn barod i dderbyn eich llawdriniaeth. Bydd y llawdriniaeth yn un o'r ddwy opsiwn: 1) fitrectomi yn unig neu 2) fitrectomi a llawdriniaeth cataract yn yr un llawdriniaeth. Bydd y math o llawdriniaeth a gewch yn cael ei phenderfynu ar hap (hynny yw, trwy siawns), gan gyfrifiadur.

Ar hyn o bryd, nid yw'r rhan fwyaf o lawfeddygon yn y DU yn cynnig i'w cleifion â datodiad retinol y posibilrwydd o gael y llawdriniaeth cataract ar yr un pryd ag atgyweiriad y datodiad retinol (felly, cynigir y "fitrectomi" yn unig ond nid y "phacofitrectomi"). Mae hyn yn debygol oherwydd, fel y dywedom uchod, nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd beth sydd orau i'w wneud.

Wedyn, byddwch yn cael eich gweld tuag wythnos yn ddiweddarach ac wedyn o gwmpas 6 wythnos, 12 wythnos a 52 wythnos ar ôl y llawdriniaeth. Bydd eich cyfranogaeth yn y treial yn gorffen wedyn. Bydd yr holl ymweliadau hyn, heblaw am yr un ar 12 mis, yn digwydd beth bynnag, pe na byddech yn cymryd rhan yn yr astudiaeth COMBAT oherwydd eu bod yn rhan o ofal safonol.

Yn yr ymweliad un wythnos mae'n debygol y bydd gennych nwy yn eich llygad a ddim yn gallu gweld llawer. Ar ôl hynny, mewn ymweliadau diweddarach, mesurir eich golwg yn ofalus. Ym mhob un o'r ymweliadau ar ôl llawdriniaeth, bydd cefn eich llygad yn cael ei gwirio a byddwn yn gofyn i chi am eich profiad â'r driniaeth a dderbynioch, a byddwn yn gofyn i chi lenwi rhai holiaduron.. Mae hyn er mwyn ein helpu i ddeall unrhyw orbryder, straen, poen, neu effeithiau eraill mae'r driniaeth yn ei chael arnoch. Edrychir ar unrhyw gymhlethdodau a all fod gennych, eu trin, os oes angen, a'u cofnodi.

Gofynnir i chi gadw cofnod o gostau eich presenoldeb mewn ysbyty, er mwyn i ni wybod y costau i bobl o bob llawdriniaeth.

Os nad yw eich llawdriniaeth yn llwyddiannus (hynny yw, nid yw'r retina yn ailatodi) neu os yw'ch retina yn ailatodi yn y lle cyntaf ond yn datod eto wedyn, cynigir llawdriniaeth ychwanegol i chi a'i wneud os byddwch yn cytuno. Dyma'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd i bobl ag RRD mewn gofal safonol yn y GIG.

Fel rhan o'r astudiaeth COMBAT, rydym yn cynllunio trefnu cyfweiliadau unigol a detholiad o gyfranogwyr mewn lleoedd amrywiol ledled y DU, i ddeall ymhellach sut mae pobl yn teimlo am y triniaethau a'u profiadau. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y cyfweiliadau hyn (byddwch yn cymryd rhan mewn uchafswm o 3 chyfweiliad), cysylltir â chi yn ddiweddarach am gymryd rhan a rhoddir rhagor o wybodaeth i chi a gofynnir i chi ddarparu eich cydsyniad.

Ni fydd pawb y gofynnir iddynt a fyddai diddordeb ganddynt i gymryd rhan yn y cyfweiliadau hyn fydd yn cael eu galw i fynychu'r cyfweiliad. Bydd cyfranogwyr yn cael eu dewis o bawb o'r rheini sydd a diddordeb i gymryd rhan i sicrhau y bydd gennym grŵp amrywiol o bobl yn darparu eu barn.

Beth yw'r anfanateision posibl i mi gymryd rhan yn yr astudiaeth COMBAT?

Mae'n annhebygol y byddwch o dan anfantais os cymerwch ran yn yr astudiaeth. Yr unig beth yw y bydd angen i chi ddod i ysbyty am y gwiriad ychwanegol hwnnw ar 52 wythnos. Fel arfer, yn y GIG, rydym yn rhyddhau pobl ag RRD 12 wythnos ar ôl llawdriniaeth os ydynt yn gwneud yn dda.

Beth yw'r buddion posibl i mi gymryd rhan?

Trwy gymryd rhan yn yr astudiaeth COMBAT, gallwch chi eich hun ac eraill elwa trwy ein helpu i benderfynu'r driniaeth orau i bobl ag RRD. Os yw gwneud llawdriniaeth cataract ar yr un pryd â'r fitrectomi yn cael ei ganfod yn well neu gystal â fitrectomi ar ei phen ei hun, ac mae hi'n cael ei ffafrio gan bobl ag RRD ac yn llai costus i'r GIG, mae'r driniaeth hon (fitrectomi a llawdriniaeth cataract) yn debygol o gael ei chynnig i'r holl bobl ag RRD, sydd ddim yn digwydd ar hyn o bryd yn y GIG.

Yn ogystal, os byddwch yn cymryd rhan yn yr astudiaeth COMBAT, byddwn yn trefnu i'ch gwiriadau ddigwydd mewn modd amserol.

Fydd fy nghyfranogaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol?

Bydd. Bydd unrhyw wybodaeth a gesglir amdanoch yn ystod cwrs yr astudiaeth yn cael ei chadw'n hollol gyfrinachol. Dim ond staff yn eich ysbyty a'r rheini sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth COMBAT o Brifysgol Queen's Belfast, Uned Treialon Clinigol Gogledd Iwerddon (Wedi'i lleoli yn Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belfast) a phobl o awdurdodau rheoleiddiol (os yw'n ofynnol) sy'n sicrhau bod astudiaethau fel hon yn cael eu cyflawni'n gywir, fydd yn ei gweld. Bydd ganddynt oll ddyletswydd o gyfrinachedd i chi fel cyfranogwr ymchwil. Os byddwch yn cytuno, hysbysir eich Meddyg Teulu eich bod yn cymryd rhan yn yr astudiaeth hon.

Papur Pennawd

Os byddwch yn mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn y cyfweiliadau unigol, bydd eich enw, cyfeiriad, manylion cyswllt a gwybodaeth ddemograffig yn cael eu darparu i'r ymchwilwyr ym Mhrifysgol Queen's Belfast er mwyn iddynt allu dewis pobl i'w gwahodd i'r cyfweiliadau hyn. Bydd hyn yn caniatáu i ni sicrhau ein bod yn clywed gan grŵp amrywiol o gleifion a effeithir gan RRD.

Bydd y data o'r astudiaeth hon yn cael eu cadw am o leiaf 5 mlynedd ar ôl ei chwblhau gan Brifysgol Queen's Belfast, ac Uned Treialon Clinigol Gogledd Iwerddon, (Wedi'i lleoli yn Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belfast). Gall y data gael eu rhannu ag eraill y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliadau hyn a'u defnyddio mewn astudiaethau ymchwil eraill, os byddwch yn cydsynio i hyn ddigwydd. Os ydynt yn cael eu defnyddio yn y ffordd hon, bydd yr holl ddynodwyr personol yn cael eu dileu, ac ni fydd yn bosibl i'ch adnabod chi. Cyn gynted â bod COMBAT wedi'i gwblhau, ac os ydych yn cydsynio i hyn, gall aelodau o'r tîm ymchwil adolygu'ch cofnodion meddygol neu gysylltu â'ch optometrydd i gael gwybodaeth am sut rydych yn gwneud, fel rhan o astudiaeth yn y dyfodol. Mae hyn er mwyn ceisio deall a fydd angen llawdriniaethau eraill arnoch i'ch llygaid mewn blynyddoedd i ddod.

Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth ymchwil?

Bydd y canlyniadau o'r astudiaeth COMBAT yn cael eu cyhoeddi, fel y gall pobl ag RRD ar draws y byd elwa o'r hyn a ddysgwn ni. Bydd yr holl ddata'n cael eu cyhoeddi'n ddienw ac ni fydd neb yn gallu adnabod y cyfranogwyr o unrhyw ddata a gyhoeddir).

Pwy sy'n trefnu ac yn cyllido'r astudiaeth hon?

Mae COMBAT yn cael ei drefnu a'i arwain gan yr Athro Noemi Lois, sy'n Offthalmolegydd Ymgynghorol Anrhydeddus ac yn Llawfeddyg Fitreoretinol Yn Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belfast ac yn Athro mewn Ophthalmoleg ym Mhrifysgol Queen's Belfast. Mae'r ymchwil yn cael ei gyllido gan grant o'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal

Papur Pennawd

(NIHR) Uned Treialon Clinigol Gogledd Iwerddon (NICTU), wedi'i lleoli yn Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Belfast, yw Canolfan Gydlynw'r Treial. Prifysgol Queen's Belfast yw'r noddwr.

Pwy sydd wedi adolygu'r astudiaeth COMBAT?

Mae'r ymchwil wedi cael ei adolygu gan grŵp annibynnol o bobl o'r enw Pwyllgor Moeseg Ymchwil, i amddiffyn eich diogelwch, hawliau, llesiant ac urddas. Mae swyddfa'r astudiaeth yn eich ysbyty wedi adolygu a chymeradwyo'r astudiaeth hon hefyd

Beth os oes gennych unrhyw gwestiynau, pryderon neu gŵynion am yr astudiaeth?

Os oes gennych gwestiynau am gymryd rhan yn yr astudiaeth hon neu bryderon am y ffordd mae wedi cael ei chyflawni, dylech gysylltu â'r Prif Ymchwiliwr Lleol neu aelod o'r tîm ymchwil yn eich ysbyty (manylion cyswllt isod). Byddant yn gwneud eu gorau i ateb eich cwestiynau. Os ydych yn dal yn anhapus ac yn dymuno cwyno'n ffurfiol, gallwch wneud hyn trwy Weithdrefn Gŵynion arferol y gwasanaeth iechyd.

Beth os yw rhywbeth yn mynd o'i le?

Bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau nad yw unrhyw glaf sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth COMBAT yn cael ei roi mewn perygl nac yn cael ei niweidio mewn unrhyw ffordd. Mae'r ddwy driniaeth, fitrectomi ar ei phen ei hun a phaco-fitrectomi (sef pan mae'r llawdriniaeth cataract yn cael ei gwneud ar yr un pryd â'r fitrectomi) yn cael eu defnyddio i drin pobl ag RRD yn y GIG. Bydd risgiau'r llawdriniaethau hyn yr un peth os cymerwch ran yn COMBAT neu beidio.

Yn yr achos annhebygol fod rhywbeth yn mynd o'i le, a'ch bod yn dioddef niwed o ganlyniad, gall fod gennych sail ar gyfer camau cyfreithiol, ond gall fod rhaid i chi dalu'ch costau cyfreithiol.

Beth sy'n digwydd os nad wyf am barhau â'r astudiaeth?

Gallwch dynnu yn ôl o'r astudiaeth COMBAT ar unrhyw adeg. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ystyried y penderfyniad hwn yn ofalus, ond, os ydych yn dymuno tynnu yn ôl, gallwch wneud hynny heb roi rheswm i ni am eich penderfyniad. Os ydych yn penderfynu tynnu yn ôl, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i'r tîm ymchwil cyn gynted â phosibl am eich penderfyniad i dynnu yn ôl. Byddwch yn parhau i dderbyn gofal mewn clinig fel y byddai wedi digwydd pe na byddech wedi ymuno â'r astudiaeth hon. Os byddwch yn tynnu yn ôl, dim ond data a gesglir hyd at adeg tynnu yn ôl fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer yr astudiaeth.

Beth yw'r costau a'r taliadau am gymryd rhan yn yr astudiaeth hon?

Os byddwch yn cymryd rhan yn yr astudiaeth COMBAT, rhoddir £30 i chi am bob ymweliad astudiaeth (pan fyddwn yn eich gwirio ar y dechrau, llawdriniaeth 1 wythnos, 6 wythnos, 12 wythnos a 52 wythnos ar ôl y llawdriniaeth) a roddir i chi fel arian neu daleb, beth bynnag sy'n well gennych. Sylwch na fyddwch yn derbyn arian am unrhyw ymweliadau eraill ychwanegol.

Os hoffech dderbyn canlyniadau'r astudiaeth, rhowch wybod i dîm yr astudiaeth yn eich ysbyty a darparwch eich manylion cyswllt ar y ffurflen gydsynio. Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio i ddarparu copi o'r canlyniadau i chi ar ddiwedd yr astudiaeth.

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen yr wybodaeth hon ac am ystyried cymryd rhan yn yr astudiaeth COMBAT.

Pwy i gysylltu ag ef/hi am ragor o wybodaeth:

Prif Ymchwiliwr:	«Diweddarau â manylion
Ileol» Enw:	«enw»
Cyfeiriad:	«cyfeiriad»

Papur Pennawd

Teleffon: «teleffon»

Nyrs Ymchwil: «Diweddaru â manylion

Ileol* Enw: «enw»

Teleffon: «teleffon»

Cwynion/pryderon: «Diweddaru â manylion ar gyfer
cwynion lleol adran a/neu Gwasanaeth
Cynghori ac Ymgysylltu â Chleifion»

Enw: «enw»

Cyfeiriad: «cyfeiriad»

Teleffon: «teleffon»

Prif Ymchwiliwr:

Yr Athro Noemi Lois

Sefydliad Wellcome-Wolfson ar gyfer Meddygaeth Arbrofol

Prifysgol Queen's Belfast

97 Lisburn Road

Belfast BT9 7BL

Gogledd

Iwerddon

E-bost: n.lois@qub.ac.uk

Uned Treialon Clinigol Gogledd Iwerddon Canolfan Gydlynw COMBAT)

Treial COMBAT

Uned Treialon Clinigol Gogledd

Iwerddon 7 Lennoxvale

Belfast BT9 5BY

Gogledd Iwerddon

Teleffon: 028 96151447 E-bost:

combat@nictu.hscni.net

Datganiad Tryloywder

Prifysgol Queen's Belfast, yw'r noddwr ar gyfer yr astudiaeth COMBAT. Noddwr yr astudiaeth yw'r sefydliad cyfrifol i sicrhau bod yr astudiaeth yn cael ei chyflawni i safon uchel i amddiffyn hawliau a diogelwch cleifion, ac ansawdd y data ymchwil.

Sut fyddwn ni'n defnyddioi'ch gwybodaeth?

Bydd angen i ni ddefnyddio gwybodaeth oddi wrthy'ch chi a'ch cofnodion meddygol ar gyfer y prosiect ymchwil hwn.

Bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys eich dyddiad geni (DG), rhyw ar enedigaeth, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, statws cyflogaeth, cod post, blaenlythrennau. Mae angen yr wybodaeth hon arnom oherwydd ein bod am sicrhau bod pobl o bob cefndir yn cael eu gwahodd ac yn cael cyfle i gymryd rhan yn COMBAT, os dymunant.

Bydd angen eich enw a manylion cyswllt arnom hefyd i allu cysylltu â chi i gymryd rhan yn y cyfweiliadau unigol, neu os ydych yn mynegi diddordeb mewn derbyn crynodeb o ganfyddiadau'r ymchwil

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y cyfweiliadau ac os cewch eich dewis i gymryd rhan, byddwch yn cael eich digolledu am eich cyfranogaeth ac, os dewiswch daliad arian, gofynnir i chi ddarparu'ch manylion banc fel y gallwn drosglwyddo'r arian yn uniongyrchol i'ch cyfrif.

Bydd pobl yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud yr ymchwil neu i wirio'ch cofnodion i sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei wneud yn gywir

Ni fydd pobl nad oes angen arnynt i wybod pwy ydych chi, yn gallu gweld eich enw na'ch manylion cyswllt. Bydd gan eich data rif cod yn hytrach.

Trosglwyddiadau Rhyngwladol?

Ni fydd eich data yn cael eu rhannu yu tu allan i'r DU

Cyn gynted â'n bod wedi gorffen yr astudiaeth, byddwn yn cadw rhywfaint o'r data fel y gallwn gymharu'r canlyniadau. Byddwn yn ysgrifennu ein hadroddiadau mewn ffordd na fydd neb yn gallu dyfalu y cymeroch ran yn yr astudiaeth.

Byddwn yn cadw'ch data astudiaeth am uchafswm o 5 mlynedd ar ôl i'r astudiaeth orffen. Bydd data'r astudiaeth wedyn yn cael eu hanonymio'n llawn ac yn cael eu harchifo'n ddiogel neu eu dinistrio.

Beth yw eich dewisiadau am sut mae'ch gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

- Gallwch roi'r gorau i fod yn rhan o'r astudiaeth COMBAT ar unrhyw adeg, heb roi rheswm, ond byddwn yn cadw gwybodaeth amdanoch sydd gennym eisoes.
- Os ydych yn penderfynu rhoi'r gorau i gymryd rhan yn yr astudiaeth, hoffem barhau i gasglu gwybodaeth am eich iechyd o'ch ysbyty neu optometrydd. Os nad ydych am i hyn ddigwydd, dywedwch wrthym a byddwn yn rhoi'r gorau iddi.
- Mae gennych yr hawl i ofyn i ni dynnu, newid neu ddileu data sydd gennym amdanoch chi at ddibenion yr astudiaeth. Efallai na fyddwn yn gallu gwneud hyn bob amser os yw'n golygu nad ydym yn gallu defnyddio'ch data i wneud yr ymchwil. Os felly, byddwn yn dweud wrthyhch pam na allwn wneud hyn.
- Os ydych yn cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon, bydd gennych y dewis i gymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol gan ddefnyddio'r data a gadwyd o'r astudiaeth hon.

Ble allwch chi ddysgu rhagor am sut mae'ch gwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Gallwch ddysgu rhagor am sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth yn

- <http://www.qub.ac.uk/privacynotice/Research/ListofResearchPrivacyNotwww.belfasttrust.hscni.net/about/access-to-information/data-protection/>
- <https://www.hra.nhs.uk/planning-and-improving-research/policies-standards-legislation/data-protection-and-information-governance/gdpr-guidance/templates/transparency-wording-for-all-sponsors/>
- trwy ofyn i un o'r tîm ymchwil
- trwy anfon e-bost at y tîm astudiaeth COMBAT: combat@nictu.hscni.net
- trwy ein galw ar (028) 961 51447
- Trwy gysylltu â Swyddog Diogelu data Prifysgol Queen's Belfast – Rheolwr Cydymffurfiaeth gwybodaeth (info.compliance@qub.ac.uk, telephone 028 90972576)